CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 367 (Cy.33)

# CAFFAEL TIR, CYMRU

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2005

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau ynglŷn â hysbysiadau malltod yn adrannau 149 i 171 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") yn galluogi personau sydd â buddiannau penodol mewn categorïau o dir, a bennir yn Atodlen 13 i'r Ddeddf (gan gynnwys tir y mae cynigion cynllunio a chynigion priffyrdd penodol yn effeithio arno), i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priodol gaffael eu buddiant yn y tir.

Un o'r buddiannau mewn tir sy'n gymwys i'w diogelu yw buddiant perchen-feddiannydd hereditament (sef hereditament perthnasol o fewn ystyr adran 64(4)(a) i (c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988) pan na fydd gwerth blynyddol yr hereditament yn fwy nag unrhyw swm a ragnodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (adran 149(3)(a) o'r Ddeddf).

Mae'r pŵer i ragnodi'r swm hwnnw, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, wedi'i freinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a, thrwy arfer ei bwerau, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy'r Gorchymyn hwn, yn codi'r terfyn gwerth blynyddol o £24,600 i £29,200 i gymryd ailbrisio'r ardrethi yn y flwyddyn 2005 i ystyriaeth.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2000 (O.S. 2000/1169) (Cy.94) wedi'i ddirymu.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 367 (W.33)

# ACQUISITION OF LAND, WALES

# TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

## The Town and Country Planning (Blight Provisions) (Wales) Order 2005

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

The blight notice provisions in sections 149 to 171 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the Act") enable persons holding certain interests in categories of land, specified in Schedule 13 to the Act (including land affected by certain planning and highway proposals), to require the appropriate authority to acquire their interest in the land.

One of the interests in land which qualifies for protection is an interest of an owner-occupier of a hereditament (which means a relevant hereditament within the meaning of section 64(4)(a) to (c) of the Local Government Finance Act 1988) where the annual value of the hereditament does not exceed such amount as may be prescribed by the Secretary of State (section 149(3)(a) of the Act).

The power to prescribe that amount, so far as exercisable in relation to Wales, is now vested in the National Assembly for Wales and, in the exercise of its powers, the National Assembly for Wales, by this Order, increases the annual value limit from £24,600 to £29,200 to take account of the rating revaluation in the year 2005.

This Order applies to Wales.

The Town and Country Planning (Blight Provisions) (Wales) Order 2000 (S.I. 2000/1169) (W.94) is revoked.

# 2005 Rhif 367 (Cy.33)

## CAFFAEL TIR, CYMRU

## CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2005

*Wedi'i wneud* *22 Chwefror 2005*

*Yn dod i rym* *1 Ebrill 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 149(3)(a) a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) ac adrannau 143 a 147 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**2**), ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**3**), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2005 a daw i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

### Terfyn gwerth blynyddol

**2**. £29,200 yw'r swm a ragnodir at ddibenion adran 149(3)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

### Dirymu

**3**. Dirymir drwy hyn Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2000(**4**) .

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o

(1) 1990 p.8.

(2) 1988 p.41.

(3) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel a amrywiwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) (Cy.5).

(4) O.S. 2000/1169 (Cy.94).



# 2005 No. 367 (W.33)

## ACQUISITION OF LAND, WALES

## TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

## The Town and Country Planning (Blight Provisions) (Wales) Order 2005

*Made* *22 February 2005*

*Coming into force* *1 April 2005*

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 149(3)(a) and 333(7) of the Town and Country Planning Act 1990(**1**) and sections 143 and 147 of the Local Government Finance Act 1988(**2**), and now vested in the National Assembly for Wales(**3**), and of all other powers enabling it in that behalf, hereby makes the following Order:

### Citation, commencement and application

**1**.-(1) This Order may be cited as the Town and Country Planning (Blight Provisions) (Wales) Order 2005 and comes into force on 1 April 2005.

(2) This Order applies to Wales.

### Limit of annual value

**2**. The amount prescribed for the purposes of section 149(3)(a) of the Town and Country Planning Act 1990 is £29,200.

### Revocation

**3**. The Town and Country Planning (Blight Provisions) (Wales) Order 2000(**4**) is revoked.

(1) 1990 c.8.

(2) 1988 c.41.

(3) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) as varied by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2000 (S.I. 2000/253) (W.5).

(4) S.I. 2000/1169 (W.94).

dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

22 Chwefror 2005

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**).

22 February 2005

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) 1998 p.38.

(1) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 Rhif 367 (Cy.33)

# 2005 No. 367 (W.33)

## CAFFAEL TIR, CYMRU

## CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2005

## ACQUISITION OF LAND, WALES

## TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

The Town and Country Planning (Blight Provisions) (Wales) Order 2005

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091072-9

9 780110 910727

**£3.00**

W11/3/05 ON